Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro
# Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau Arbennig

**Ysgol Gynradd Rhosgadfan**
**Rhosgadfan**
**Caernarfon**
**Gwynedd**
**LL54 7EU**

**Dyddiad yr ymweliad: Gorffennaf 2019**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Gynradd Rhosgadfan wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â'r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu Ysgol Gynradd Rhosgadfan o'r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Gwella cyrhaeddiad disgyblion mwy abl mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

Mae'r athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm mathemateg a gwyddoniaeth ar gyfer disgyblion mwy abl cyfnod allweddol 2 yn bwrpasol. Mae'r cynlluniau'n amlinellu cyfleoedd cyfoethog i'r disgyblion ddatblygu medrau mewn gwahanol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Mae'r gweithgareddau yn manylu'n benodol ar gyfleoedd ymestynnol ar gyfer disgyblion o bob gallu. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd cadarn.

O fewn eu gwersi mathemateg, mae llawer o'r disgyblion yn ymateb yn aeddfed i lefel yr her yn eu tasgau. Maent yn arddangos lefel uchel o ddyfalbarhad wrth weithio, er enghraifft wrth fesur y pellter maent yn ei redeg tros gyfnod yn y clwb 'dal i fynd'. Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth weithio mewn tîm i ddod o hyd i gostau adeiladu tŵr radar fel rhan o'u gwaith thema. Maent yn dod o hyd i ganrannau o gostau gwahanol nwyddau byddant yn eu defnyddio i adeiladu'r tŵr.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd gwerthfawr i gynnal arbrofion ac ymchwiliadau gwyddonol. Mae llawer yn defnyddio iaith wyddonol yn fwy cyson, er enghraifft wrth drafod sut mae planhigion yn egino, gan ddefnyddio termau gwyddonol addas. Maent yn defnyddio fframwaith priodol er mwyn cynllunio ymchwiliadau, sy'n sail effeithiol iddynt strwythuro eu gwaith yn synhwyrol. Maent yn dangos diddordeb a chwilfrydedd yn y pwnc ac yn barod iawn i ofyn 'cwestiynau mawr' ynglŷn â'u themau gwyddonol, er enghraifft wrth edrych ar sut mae gwahanol fathau o siwgr yn hydoddi mewn dŵr, gan ragfynegi a dod i gasgliadau'n synhwyrol.

### A2. Gwella medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws yr ysgol ac ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn, ac mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn fwy cyson ar draws meysydd eraill y cwricwlwm. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, lluosi a rhannu sylfaenol yn gynyddol hyderus er mwyn datrys problemau syml. Maent yn

cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ymchwilio i hoff frechdanau disgyblion y dosbarth, a chyflwyno'r canlyniadau ar ffurf graff. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o werth lle a dealltwriaeth addas o sut i ddefnyddio'r pedair gweithred wrth ddatrys problemau mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth gyflwyno canlyniadau arbrawf i weld faint o hylif mae gwahanol bapurau yn ei amsugno.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth effeithiol o sut i gadw'n ddiogel ar y we. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio rhaglenni cyfrifiadurol yn effeithiol i gyflwyno'u gwaith. Maent yn dechrau deall sut i animeiddio stori yn llwyddiannus gan ychwanegu lleisiau at fideo. Maent yn defnyddio gwybodaeth addas er mwyn creu cyflwyniad diddorol gan gynnwys testun a llun am yr hen Aifft. Maent yn cynllunio cyfarwyddiadau ar gyfer robot trydanol yn llwyddiannus. Mae llawer yn creu graffiau cywir er mwyn arddangos canlyniadau ymchwiliadau, er enghraifft y pellter llwyddodd y disgyblion i daflu bagiau ffa. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau a chyflwyniadau yn hyderus i gyflwyno'u gwaith, er enghraifft wrth greu cyflwyniadau effeithiol am newid hinsawdd. Maent yn defnyddio pecynnau graffeg yn bwrpasol, er enghraifft wrth weld pa mor bell mae awyrennau papur yn hedfan. Maent yn defnyddio cronfeydd data yn hyderus wrth ddod o hyd i ffeithiau diddorol am wahanol wledydd.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd buddiol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn fwriadus ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o'r disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd yn hyderus, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur manwl a chywir yn crynhoi ymweliad â'r Ysgwrn a'r llyfrgell genedlaethol yn Aberystwyth. Mae'r disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i weithgareddau sydd â phwrpas gwirioneddol iddynt, er enghraifft wrth grynhoi gweithgareddau'r flwyddyn ar gyfer adroddiad blynyddol y corff llywodraethol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu syniadau'n synhwyrol, gan ddefnyddio geirfa briodol ac atalnodi cyson. Mae llawer yn ysgrifennu mewn brawddegau amrywiol, sy'n ennyn diddordeb y darllenwr yn dda. Maent yn datblygu medrau ysgrifennu creadigol a ffeithiol yn llwyddiannus, er enghraifft wrth gyflwyno sgript ar gyfer cymeriadau'r Mynydd Grug.

### A3. Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn cynnig dilyniant a pharhad mewn dysgu a bodloni gofynion y cwricwlwm yn llawn, gan gynnwys maes llafur addysg grefyddol

Mae'r athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Maent yn gosod trosolwg buddiol o sut mae medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion yn datblygu wrth iddynt symud o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r cynlluniau gwaith yn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y cwricwlwm yn llawn.

Mae'r drefn gynllunio yn ystyried safbwynt yr holl staff a'r disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r disgyblion yn nodi beth maent am ei ddysgu am fwyta'n iach yn y thema 'Y Frechdan Ych a Fi.' Mae'r amrediad cynyddol o weithgareddau diddorol i'r disgyblion yn sbardun iddynt feddwl yn fwy annibynnol a chreadigol, er enghraifft wrth adeiladau a gwerthuso tyrau awyr. Mae'r athrawon yn sicrhau bod y tasgau hyn yn ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae cynlluniau gwaith ar gyfer datblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n gyson ac yn dechrau cael effaith ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r cynlluniau'n adnabod cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau disgyblion drwy amrywiaeth o weithgareddau. Erbyn hyn, mae'r staff yn darparu amrediad o heriau i ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio adnoddau ailgylchu i greu cartref i'r mwydod. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cefnogi'r disgyblion yn effeithiol wrth iddynt ddatblygu eu medrau yn y ddarpariaeth estynedig a pharhaus. Mae'r ddarpariaeth yn yr ardal allanol yn datblygu medrau disgyblion yn llwyddiannus.

Mae'r cynlluniau gwaith yn dangos cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygu addysg grefyddol ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn cynllunio amrediad o weithgareddau buddiol fel rhan o'r gwaith thema, er enghraifft wrth iddynt gymharu gwyliau crefyddol. Maent yn gwahodd ymwelwyr i'r ysgol er mwyn eu holi am eu diwylliant a'u credoau.

### A4. Sicrhau bod y cynllunio a'r addysgu yn darparu tasgau heriol i ymateb i anghenion pob disgybl

Mae staff wedi datblygu cynlluniau gwaith manwl sydd wedi eu teilwra i ymateb i wahanol anghenion a diddordebau'r disgyblion. Mae ystod effeithiol o weithgareddau yn cael eu nodi yng nghynlluniau tymor byr yr athrawon er mwyn sicrhau cyfranogiad disgyblion o bob gallu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae'r staff yn darparu ystod briodol o weithgareddau sydd yn herio'r disgyblion yn addas. Maent yn cynllunio tasgau dan arweiniad sydd yn datblygu medrau'r disgyblion yn briodol. Maent yn hyrwyddo dysgu annibynnol yn y ddarpariaeth estynedig a pharhaus yn effeithlon. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon bob amser yn hwyluso'r dysgu yn ddigon effeithiol nac yn arddangos disgwyliadau digon uchel o'r disgyblion er mwyn eu herio i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn hwyluso'r dysgu yn effeithiol trwy holi cwestiynau agored a herio'r disgyblion i feddwl drostynt eu hunain. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan fwy gweithredol yn eu dysgu, er enghraifft wrth fesur effaith gweithgaredd corfforol ar gyfradd curiad y galon. Maent yn deall beth a sut i wella eu gwaith eu hunain a'u cyfoedion trwy ymateb yn fwriadus i feini prawf penodol. Mae llawer o'r disgyblion yn gweithredu ar adborth er mwyn datblygu eu gwaith ymhellach.

**A5. Sicrhau bod trefniadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni gofynion y cod ymarfer**

Mae'r trefniadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn bodloni gofynion y cod ymarfer. Maent yn cynnwys camau angenrheidiol wrth ystyried anghenion disgyblion unigol o'u mynediad cyntaf i'r ysgol. Mae trefniadau cadarn er mwyn i'r staff rannu gwybodaeth berthnasol ynglŷn â disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.

Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r staff ddatblygu eu gallu i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft wrth addysgu disgyblion sut i feithrin gwell dygnwch wrth wynebu heriau yn eu gweithgareddau. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion yn deall pwysigrwydd ymdrechu yn gyson a dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Mae tystiolaeth gadarn fod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cyson yn eu dysgu.

**A6. Sicrhau bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu'n fwy effeithiol wrth osod cyfeiriad strategol a monitro blaenoriaethau ar gyfer gwelliant**

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn ac mae'n ei rhannu'n effeithiol gyda holl randdeiliaid yr ysgol. Mae'n canolbwyntio'n effeithiol ar godi safonau cyflawniad ac ar gefnogi lles disgyblion mewn amgylchedd ddysgu gynhwysol. Mae'n cydweithio'n llwyddiannus gyda'r staff a'r llywodraethwyr ac maent wedi sefydlu cyfeiriad strategol cadarn a chynaliadwy.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'r holl staff. Mae'n eu cefnogi a'u herio'n llwyddiannus, er enghraifft wrth gefnogi'r staff i ddatblygu gweithgareddau heriol yn yr ardal allanol. Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd hyfforddiant cyfoethog i'r athrawon a'r cymorthyddion. O ganlyniad, maent yn fedrus wrth gefnogi disgyblion sydd ag anghenion amrywiol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd er mwyn sicrhau gwelliannau. Mae llawer o'r llywodraethwyr yn gweithredu'n fedrus fel cyfeillion beirniadol, gan sicrhau atebolrwydd y pennaeth a gosod disgwyliadau clir ynglŷn â chynnydd. Mae aelodau'r is-banel gwella yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd i graffu ar waith disgyblion a chynnal teithiau dysgu. Maent yn llunio adroddiadau defnyddiol yn dilyn yr ymweliadau, gan gynnig argymhellion synhwyrol er mwyn cynorthwyo'r ysgol i wella. Mae'r pennaeth ac aelodau'r is-banel gwella yn craffu ar dystiolaeth uniongyrchol gydag ymgynghorydd her y consortiwm rhanbarthol. Maent yn sicrhau bod argymhellion yr ymweliadau monitro yn derbyn sylw llawn. O ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu at ddatblygiadau cadarnhaol yn y ddarpariaeth ac ar gynnydd disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn defnyddio technegau addas ar gyfer casglu tystiolaeth am safonau, ac am y ddarpariaeth. Maent yn mesur cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r ysgol yn fedrus. Ers yr arolygiad craidd, mae arsylwadau gwersi yn cynnig trosolwg defnyddiol i'r arweinwyr am yr addysgu a'r dysgu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn ystyried effeithiolrwydd cynlluniau cwricwlaidd yr athrawon drwy graffu ar lyfrau gwaith disgyblion er mwyn mesur cynnydd mewn meysydd penodol.

**Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**